

Lleihau Niwed Ysmygu i Blant a Phobl Ifanc:

Diweddariad Blynyddol 2022-2023 ar gyfer Cynllun Gweithredu Caerdydd a Bro Morgannwg



Mae partneriaid sy'n ymwneud â lleihau niwed ysmegu i blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg wedi bod yn gweithio'n galed rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 yn darparu addysg ar ysmegu a fêpio, mynd i'r afael â gwerthiannau anghyfreithlon a dan oed, a chefnogi ysmygwyr sydd am roi'r gorau i ysmegu.

1750

Derbyniodd 1750 o blant a phobl ifanc weithgareddau addysg ac atal ysmegu a/neu fêpio gan Dîm Iechyd y Cyhoedd Lleol Caerdydd a'r Fro. Dywedodd 76% o'r cyfranogwyr fod y sesiynau'n dda neu'n rhagorol a gwnaeth y rhan fwyaf o bobl ifanc a nododd eu bod yn debygol iawn o ysmegu neu fêpio cyn eu sesiynau leihau eu bwriadau yn y dyfodol i ysmegu ar ôl y sesiynau.

24

Cwblhaodd 5 ysgol yng Nghaerdydd ac 1 ym Mro Morgannwg eu Gwobr Ansawdd Genedlaethol ar gyfer y Cynllun Ysgolion Iach. Roedd hyn yn golygu, erbyn mis Ebrill, bod o leiaf 24 o ysgolion ledled Caerdydd a Bro Morgannwg yn dangos Dull Gweithredu Ysgol Gyfan tuag at Ddefnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau.

18

Cofrestrodd 18 lleoliad cyn-ysgol ledled Caerdydd a Bro Morgannwg i'r Fenter Sticer Ffenestr Di-fwg a gynhelir gan y cynlluniau Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy Lleol. Rhoddwyd adnoddau, gweithgareddau a sticer ffenestr i leoliadau i annog pobl i beidio ag ysmegu neu fêpio y tu allan i'w lleoliadau gofal plant.

60

Gwnaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 60 ymgais i geisio prynu amrywiaeth o gynhyrchion â chyfyngiad oed yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Arweiniodd 9 o'r ymdrechion yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg at werthu naill ai alcohol neu e-sigaréts/fêps ac ymchwiliwyd yn llawn i amgylchiadau pob un a chymerwyd camau gorfodi priodol.

32

Atafaelodd y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir dybaco anghyfreithlon 32 gwaith yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Atafaelwyd 13,834 o becynnau sigarêts a 957 o bacedi tybaco rholio â llaw yn ystod y gweithrediadau hyn, gyda chyfanswm gwerth manwerthu o £184,501.

37

Oherwydd lefelau uchel o wybodaeth ynghylch e-sigarêts/fêps anghyfreithlon, ceisiwyd prynu'r rhain 37 gwaith yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Canfuwyd bod 14 o safleoedd yn eu gwerthu. Yn ogystal, cynhaliwyd 56 o archwiliadau, ac arweiniodd 37 ohonynt at atafaelu 5444 o e-sigarêts anghyfreithlon sy'n cyfateb i werth manwerthu amcangyfrifedig o £50,889.

832

Cafodd 1147 o ysmygwyr eu trin gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ystod y flwyddyn. Dywedodd 832 o'r rhai y cysylltwyd â nhw 4 wythnos ar ôl eu dyddiad rhoi'r gorau i ysmegu eu bod wedi rhoi'r gorau i ysmegu yn llwyddiannus.

Byddwn yn parhau i gefnogi atal ymysgu, rhoi'r gorau i ysmegu a newid yr amgylchedd ysmegu dros y flwyddyn nesaf yn unol â Chynllun Gweithredu 2022-2024.

Mae ASH Cymru yn archwilio tueddiadau mewn defnyddio cannabis a nicotin ar y cyd ymysg pobl ifanc; yn cynnal arolygon a grwpiau ffocws mewn ysgolion er mwyn deall fêpio'n well; yn cynnal gweminarau; ac yn creu rhwydwaith cymorth i addysgu a chyfeirio athrawon a dysgwyr.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid newydd yn y cynllun. Os hoffech chi ymuno â ni i leihau niwed ysmegu i blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, neu gael gwybod mwy am ein Cynllun Gweithredu, ffoniwch Dîm Iechyd y Cyhoedd Lleol Caerdydd a'r Fro ar 02921 836505.